

Tasg 4

HOLIADUR

Ar ôl darllen y syniadau am 'Deulu Hapus', lluniodd disgyblion Ysgol y Gelli holiadur. Bwriad yr holiadur oedd darganfod sut roedd y disgyblion yn treulio'u hamser hamdden. Roedd ganddynt hawl i roi croes mewn dwy res.

Cafodd yr holiadur ei ateb gan 100 o ddisgyblion Blwyddyn 9.

AMSER HAMDDEN	
Gwneud gweithgareddau gyda ffrindiau mewn clwb e.e. chwarae rygbi/ dawnsio	
Gwneud gweithgareddau gyda fy nheulu, e.e. mynd am dro i'r wlad/ beicio	
Mynd allan i'r dref/pentref gyda fy ffrindiau	
Mynd i siopa gyda fy nheulu	
Mynd allan gyda fy mrawd/chwaer	
Mynd i ymweld â'r teulu gyda Mam/Dad	
Gwyllo'r teledu gyda fy nheulu	
Gwyllo'r teledu/chwarae gemau cyfrifiadurol yn fy llofft	
Gweithio'n rhan-amser	
Helpu o gwmpas y tŷ neu ym musnes y teulu, e.e. fferm, siop	

Rhowch 4 rheswm i egluro pam rydych chi'n treulio eich amser hamdden fel rydych wedi nodi yn yr holiadur a pham dydych chi ddim yn gwneud rhai o'r pethau eraill.


Rheswm 1

Rheswm 2

Rheswm 3

Rheswm 4

- 52% Gwneud gweithgareddau gyda ffrindiau mewn clwb, e.e. chwarae rygbi/ dawnsio
- 14% Gwneud gweithgareddau gyda fy nheulu, e.e. mynd am dro i'r wlad/beicio
- 69% Mynd allan i'r dref/pentref/sinema gyda fy ffrindiau
- 4% Mynd i siopa gyda fy nheulu
- 2% Mynd allan gyda fy mrawd/chwaer
- 24% Mynd i ymweld â'r teulu gyda mam/dad
- 12% Gwyllo'r teledu gyda fy nheulu
- 64% Gwyllo'r teledu/chwarae gemau cyfrifiadurol yn fy llofft
- 35% Gweithio'n rhan-amser
- 38% Helpu o gwmpas y tŷ neu ym musnes y teulu, e.e. fferm, siop



Ysgrifennwch adroddiad i egluro canlyniadau'r holiadur gan ddilyn y patrwm hwn:

- Eglurwch pam cafodd yr holiadur ei greu a phwy atebodd y cwestiynau.
- Dadansoddwch y canlyniadau gan ddefnyddio geirfa fel mwy, mwyaf, llai, lleiaf. Rhowch sylw i faint o amser mae'r disgyblion yn ei dreulio gyda'u teulu.
- Nid yw rhesymau'r disgyblion wedi eu cynnwys. Ceisiwch feddwl beth fyddai eu rhesymau ac ysgrifennwch baragraff i egluro pam maent yn gwneud y gweithgareddau hyn.